

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012

2012 dccc 1

Nodiadau Esboniadol

National Assembly for Wales (Official Languages) Act 2012

2012 anaw 1

Explanatory Notes

£5.75

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 (dccc 1) a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 12 Tachwedd 2012

DEDDF CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU (IEITHOEDD SWYDDOGOL) 2012

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 3 Hydref 2012 ac a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 12 Tachwedd 2012. Fe'u paratowyd gan Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol i gynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid eu darllen ochr yn ochr â'r Ddeddf, ond nid ydynt yn rhan ohoni.

2. Mae'r Ddeddf hon yn diwygio darpariaethau presennol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n nodi dyletswyddau cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg (adran 35(1) a pharagraff 8(3) o Atodlen 2).

3. Yn y Nodiadau Esboniadol hyn, cyfeirir at Ddeddfau Seneddol blaenorol fel a ganlyn:

> ystyr "Deddf 1993" yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993;
> ystyr "Deddf 1998" yw Deddf Llywodraeth Cymru 1998; ac
> ystyr "Deddf 2006" yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

4. Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud yr hyn a ganlyn:

> "in the conduct of its business (to) give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality."

5. Roedd Deddf 2006 yn ailddatgan y ddyletswydd a roddwyd ar y Cynulliad Cenedlaethol gan Ddeddf 1998, er bod y cyfeiriad at "drafodion" y Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na "busnes" y Cynulliad Cenedlaethol yn adlewyrchu'r ffaith mai corff seneddol yn unig yw Cynulliad Cenedlaethol bellach. O dan adran 35(1) o Ddeddf 2006 –

> "(1) The Assembly must, in the conduct of Assembly proceedings, give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES (OFFICIAL LANGUAGES) ACT 2012

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the National Assembly for Wales (Official Languages) Act 2012 which was passed by the National Assembly on the 3 October 2012 and received Royal Assent on 12 November 2012. They have been prepared by the National Assembly Commission to assist the reader of the Act. They should be read in conjunction with the Act, but are not part of it.

2. This Act amends the current provisions of the Government of Wales Act 2006 that set out the general duties of the National Assembly and of the Assembly Commission in relation to use of the Welsh language (section 35(1) and Schedule 2 paragraph 8(3)).

3. In these Explanatory Notes, previous Acts of Parliament are referred to as follows:

> "the 1993 Act" means the Welsh Language Act 1993;
> "the 1998 Act" means The Government of Wales Act 1998; and
> "the 2006 Act" means The Government of Wales Act 2006.

4. The Government of Wales Act 1998 required the National Assembly:

> "in the conduct of its business (to) give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality."

5. The 2006 Act re-stated the duty imposed on the National Assembly by the 1998 Act, although by reference to National Assembly "proceedings" rather than National Assembly "business", reflecting the fact that the National Assembly is now a solely parliamentary body. Under section 35(1) of the 2006 Act –

> "(1) The Assembly must, in the conduct of Assembly proceedings, give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality."

> practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality."

6. Roedd hefyd yn gosod dyletswydd gyfochrog ar Gomisiwn newydd y Cynulliad (paragraff 8(3) o Atodlen 2 i Ddeddf 2006) –

> "(3) In the exercise of the functions of the Assembly Commission effect must be given, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality."

7. Yn yr achosion hyn i gyd, cafodd y ddyletswydd ei geirio er mwyn adlewyrchu darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau iaith Gymraeg ddangos sut y mae cyrff cyhoeddus yn cynnig gweithredu'r egwyddor a ganlyn:

> "so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that in the conduct of public business and the administration of justice in Wales the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality."

8. Bellach, mae'r gyfraith mewn perthynas â'r Gymraeg wedi symud ymlaen. Bydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur"), a ddaeth yn gyfraith ar 9 Chwefror 2011, yn diddymu Deddf 1993 a chyfundrefn y cynlluniau iaith, ac yn ei lle yn cyflwyno "safonau" a gaiff eu gosod gan Weinidogion ac y gellir eu gorfodi yn y llysoedd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Mesur wedi diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd.

9. Ni fydd naill ai'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun na Chomisiwn y Cynulliad yn ddarostyngedig i'r trefniadau newydd hyn o dan y Mesur, sy'n cael eu goruchwylio gan Weinidogion. Yn hytrach, maent yn parhau'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau o dan Ddeddf 2006. Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor gyfansoddiadol fod Gweinidogion Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac nid y gwrthwyneb i hynny.

10. Dim ond darpariaeth ar gyfer gwneud cynllun gan Gomisiwn y Cynulliad y mae'r Ddeddf yn ei wneud, ac nid oes ynddo unrhyw bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.

11. Dim ond mewn cysylltiad â Chymru y bydd y Ddeddf hon yn gymwys.

6. It also imposed a parallel duty on the newly-established Assembly Commission (paragraph 8(3) of Schedule 2 to the 2006 Act) –

> "(3) In the exercise of the functions of the Assembly Commission effect must be given, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality."

7. In all these cases, the duty was framed so as to reflect the provisions of the Welsh Language Act 1993, which require Welsh language schemes to demonstrate how public bodies propose to give effect:

> "so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that in the conduct of public business and the administration of justice in Wales the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality."

8. The law relating to the Welsh language has since moved on. The Welsh Language (Wales) Measure 2011 ("the Measure"), which became law on 9 February 2011 will repeal the 1993 Act and the system of language schemes, replacing it with "standards" imposed by Ministers and enforceable in the courts by a Welsh Language Commissioner. The Measure has also abolished the Welsh Language Board.

9. Neither the National Assembly itself nor the Assembly Commission will be subject to these new arrangements under the Measure, overseen by Ministers, and they remain subject instead to the duties imposed by the 2006 Act. This reflects the constitutional principle that Welsh Ministers are accountable to the National Assembly, and not the reverse.

10. This Act only makes provision for the making of a scheme by the Assembly Commission, and contains no powers to make subordinate legislation.

11. This Act will apply only in relation to Wales.

SYLWADAU AR ADRANNAU
Adran 1 - Diwygio adran 35 y Ddeddf (Trin yn gyfartal)

12. Mae'r adran hon yn disodli adran 35(1) o Ddeddf 2006 ac yn cyflwyno pum is-adran newydd.
13. Mae is-adran (1) newydd yn cynnwys datganiad clir, syml mai Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol.
14. Mae is-adran (1A) yn ailddatgan, mewn ffurf newydd, yr egwyddor a gaiff ei chynnwys yn adran 35(1) ar hyn o bryd. Mae'r newid yn y ffordd y mynegir y ddyletswydd, sy'n cyfeirio'n syml at ddyletswydd i drin yr ieithoedd "ar y sail eu bod yn gyfartal", yn adlewyrchu newid cymesur a wnaed gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (gweler adran 1(3) (a) "deddfiadau sy'n ... ei gwneud yn ofynnol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal yn nhrafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru".)
15. Mae is-adran (1B) eto yn adlewyrchu arfer deddfwrfeydd dwyieithog eraill o roi'r hawl i ddefnyddio'r ddwy iaith yn glir ar wyneb y ddeddfwriaeth lywodraethu. Mae'r is-adran yn ei gwneud yn glir hefyd nad Aelodau'r Cynulliad yn unig sydd â'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg, ond hefyd pobl eraill sy'n cymryd rhan yn y trafodion, ee tystion sy'n rhoi tystiolaeth mewn pwyllgorau (mae hyn yn unol ag arferion presennol ond ni chaiff ei nodi'n benodol mewn deddfwriaeth.)
16. Mae is-adran (1C) yn ei gwneud yn ofynnol bod y cofnod o drafodion y Cynulliad Cenedlaethol, fel y'i diffinnir yn adran 1(5)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (trafodion y Cynulliad cyfan, hynny yw, yn y Cyfarfod Llawn) yn gwbl ddwyieithog. Mae hyn yn golygu nid yn unig cofnod llawn o'r hyn a ddywedwyd yn yr iaith a siaradwyd, ond hefyd cyfieithiad llawn i'r iaith swyddogol arall. Felly, mae'n ymgorffori arferion presennol y Cynulliad mewn statud.
17. Ar yr amod bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu staff a chyfleusterau eraill i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud ei waith, gall y Cynulliad gydymffurfio â'r dyletswyddau o dan is-adrannau (1A) hyd at (1C). Mae is-adran (1D) yn cyfeirio at baragraff 8 o Atodlen 2, sy'n cynnwys y dyletswyddau perthnasol o ran Comisiwn y Cynulliad.

COMMENTARY ON SECTIONS
Section 1 - Amendment to section 35 of the Act (Equality of treatment)

12. This section replaces section 35(1) of the 2006 Act with five new subsections.

13. The new subsection (1) contains a clear, simple statement that the English and Welsh languages are the official languages of the National Assembly.

14. Subsection (1A) re-states, in a modified form, the principle previously contained in section 35(1). The change in the way in which the duty is expressed, which refers simply to a duty to treat the languages "on a basis of equality", reflects a parallel change made by the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (see section 1(3) (a) "enactments which require the Welsh and English languages to be treated on the basis of equality in the conduct of the proceedings of the National Assembly for Wales").

15. Subsection (1B) again reflects the practice of bilingual legislatures elsewhere of placing the right to use both languages clearly on the face of the governing legislation. The subsection also makes it clear that the right to use either English or Welsh extends not only to Assembly Members but also to others who participate in proceedings, e.g. witnesses giving evidence to committees (this accords with current practice but is not explicitly stated in legislation.)

16. Subsection (1C) requires reports of proceedings of the National Assembly as defined in section 1(5)(a) of the Government of Wales Act 2006 (proceedings of the Assembly as a whole i.e. in plenary) to be fully bilingual. This means not only a full record of what was said in the language in which it was said, but also a full translation into the other official language. It therefore enshrines in statute the Assembly's current practice.

17. The National Assembly can only comply with the duties in subsections (1A) to (1C) insofar as the Assembly Commission provides the National Assembly with the staff and other facilities to enable it to do so. Subsection (1D) is a pointer to Schedule 2, paragraph 8, which contains the related duties on the part of the Assembly Commission.

Adran 2 - Diwygio Atodlen 2 i'r Ddeddf (Comisiwn y Cynulliad)

18. Mae'r adran hon yn disodli is-baragraff 8(3) o Atodlen 2 i Ddeddf 2006 gyda deg is-baragraff newydd sy'n cynnwys darpariaethau manwl yn diffinio dyletswyddau Comisiwn y Cynulliad o ran defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys cymorth y Comisiwn i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 35(1)-(1C) o Ddeddf 2006 (fel y'i diwygiwyd).

19. Yn gyntaf, mae'r is-baragraff (3) newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad drin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae hyn yn ailddatgan, ar ffurf newydd, y ddyletswydd yn yr is-baragraff (3) blaenorol o Atodlen 2. Fodd bynnag, yn ogystal, mae'r is-baragraff newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad wneud trefniadau ar gyfer galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 35 (fel y'i diwygiwyd).

20. Mae gweddill yr is-baragraffau newydd yn ategu'r dyletswyddau o dan is-baragraff (3) drwy ddarparu dulliau ar gyfer sicrhau cydymffurfio'n effeithiol â'r dyletswyddau hynny.

21. Y ffordd o wneud hynny yw drwy Gynllun Ieithoedd Swyddogol sy'n nodi'r mesurau y mae Comisiwn y Cynulliad yn bwriadu eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan is-baragraff (3). Mae is-baragraffau (4), (10) ac (11) yn ymdrin â'r broses o baratoi, mabwysiadu ac adolygu'r Cynllun. Bydd angen cyhoeddi drafft o'r Cynllun a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, ac ymgynghori arno. Bydd angen i Gomisiwn y Cynulliad ystyried sylwadau a wnaed amdano gan y sawl yr ymgynghorodd â hwy a chan y Cynulliad Cenedlaethol (er enghraifft adroddiad unrhyw un o bwyllgorau'r Cynulliad a ystyriodd y Cynllun drafft). Yna, bydd angen i'r Cynllun (fel y'i diwygiwyd o ganlyniad i'r broses ymgynghori hon) gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

22. Bydd y darpariaethau hyn yn ei gwneud yn glir y bydd Comisiwn y Cynulliad yn atebol yn uniongyrchol i'r Cynulliad Cenedlaethol (ac felly i'r cyhoedd) am ei wasanaethau dwyieithog, yn hytrach nag i Gomisiynydd y Gymraeg a Gweinidogion Cymru fel yn achos cyrff cyhoeddus y gosodir safonau arnynt o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

23. Mae is-baragraff (11) yn ei gwneud yn glir y bydd yn agored i Gomisiwn y Cynulliad fabwysiadu Cynllun a baratowyd yn unol â gofynion y Ddeddf, hyd yn oed os bydd y camau angenrheidiol wedi cael eu cymryd cyn i'r Ddeddf ddod i rym.

24. Mae is-baragraffau (5), (6) a (7) yn ymdrin â rhai (ond nid yr holl) faterion y bydd angen i'r Cynllun ymdrin â hwy. Yn is-baragraff (5), nodir yr hyn a ganlyn:

Section 2 - Amendment to Schedule 2 to the Act (Assembly Commission)

18. This section replaces subparagraph 8(3) of Schedule 2 to the 2006 Act with ten new subparagraphs containing detailed provisions defining the Assembly Commission's duties in relation to use of the English and Welsh languages, including support by the Commission to enable the National Assembly to carry out its duties under section 35(1)-(1C) of the 2006 Act (as amended).

19. The new subparagraph (3) firstly requires the Assembly Commission to treat the two languages on a basis of equality. This restates, in modified form, the duty in the previous subparagraph (3) of Schedule 2. However, in addition, the new subparagraph requires the Assembly Commission to make arrangements for enabling the National Assembly to fulfil its duties under section 35 (as amended).

20. The remaining new subparagraphs supplement the duties under subparagraph (3) by providing machinery for ensuring effective compliance with those duties.

21. The vehicle for doing so is to be an Official Languages Scheme specifying the measures which the Assembly Commission proposes to take in order to comply with its duties under subparagraph (3). Subparagraphs (4), (10) and (11) deal with the process for preparing, adopting and reviewing the Scheme. A draft of the Scheme will have to be published and laid before the National Assembly and consulted upon. The Assembly Commission will need to consider representations made about it by those whom it has consulted and by the National Assembly (for example the report of any Assembly committee that has considered the draft Scheme). The Scheme (as amended in the light of this consultation process) will then need to be approved by the National Assembly.

22. These provisions will make it clear that accountability for the Assembly Commission's bilingual services will be directly to the National Assembly (and therefore to the public) rather than to the Welsh Language Commissioner and Welsh Ministers as in the case of bodies on whom standards will be imposed under the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

23. Subparagraph (11) makes it clear that it will be open to the Assembly Commission to adopt a Scheme which has been prepared in compliance with the requirements of this Act even if the necessary steps were taken before the Act comes into force.

24. Subparagraphs (5), (6) and (7) deal with some (but not all) of the issues that the Scheme will need to address. In subparagraph (5) the following are specified:

    (a) simultaneous interpretation;

(a) cyfieithu ar y pryd;

(b) cyhoeddi dogfennau'n ddwyieithog;

(c) ymgysylltu â'r cyhoedd;

(d) mesurau i feithrin a gwella'r hawl i ddewis pa iaith swyddogol i'w defnyddio;

(e) pennu targedau ac amserlenni ar gyfer gweithredu'r Cynllun;

(f) dyrannu cyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r Cynllun;

(g) dulliau gwrthrychol o fesur cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun; a

(h) strategaeth sgiliau iaith ar gyfer staff.

25. Mae is-baragraff (6) yn cynnwys gofyniad penodol i'r Cynllun gynnwys darpariaethau ynghylch cwynion o fethiant i roi effaith i ddarpariaethau'r Cynllun yn dod i law a'r broses o ymchwilio i'r cwynion hynny a'u hystyried.

26. Mae is-baragraff (7) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun nodi'r gwasanaethau i'w darparu yn yr ieithoedd swyddogol ac yn egluro sut y byddant yn cael eu darparu yn unol ag is-baragraff (5).

27. Mae is-baragraff (8) yn cyflwyno dyletswydd ar Gomisiwn y Cynulliad i baratoi adroddiad blynyddol ar weithredu'r Cynllun, a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae is-baragraff (9) yn nodi'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw.

28. Mae is-baragraff (10) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn adolygu'r Cynllun cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl pob etholiad cyffredinol cyffredin o Aelodau Cynulliad. Mae is-baragraff (11) yn nodi'r gofynion ymgynghori a amlinellir ym mharagraff 21 uchod. Yr un fydd y trefniant ar ôl pob etholiad cyffredinol anghyffredin sy'n golygu (yn sgîl adran 5(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) na chynhelir yr etholiad cyffredinol cyffredin dilynol os caiff yr etholiad anghyffredin ei gynnal llai na chwe mis cyn y dyddiad y byddai'r etholiad cyffredin wedi'i gynnal fel arall.

29. Unwaith y caiff y Cynllun ei fabwysiadu'n ffurfiol, mae is-baragraff (12) yn ei gwneud yn glir ei bod yn ddyletswydd ar Gomisiwn y Cynulliad i'w roi ar waith.

Adran 3 - Enw byr a chychwyn

30. Mae hwn yn cynnwys teitl y ddeddfwriaeth ac yn darparu i'r ddeddfwriaeth ddod i rym y diwrnod ar ôl i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

(b) the publication of documents bilingually;

(c) public engagement ;

(d) measures to foster and improve freedom of choice of official language;

(e) the setting of targets and timescales for implementing the Scheme;

(f) the allocation of responsibilities for that implementation;

(g) objective means of measuring the progress of that implementation; and

(h) a language skills strategy for staff.

25. Subparagraph (6) includes a specific requirement for the Scheme to include provisions regarding the receipt, investigation and consideration of complaints of any failures to give effect to the Scheme.

26. Subparagraph (7) requires the Scheme to identify services to be provided in the official languages and to explain how they are to be provided consistently with subparagraph (5).

27. Subparagraph (8) introduces a duty on the Assembly Commission to prepare an annual report on the operation of the Scheme, which will be laid before the National Assembly. Subparagraph (9) specifies matters that must be included in that report.

28. Subparagraph (10) requires the Commission to review the Scheme as soon as possible after each ordinary general election of Assembly Members. Subparagraph (11) sets out the consultation requirements referred to in paragraph 21 above. The same arrangements will apply after each extraordinary general election that (by virtue of section 5(5) of the Government of Wales Act 2006) results in the following ordinary general election not being held because the extraordinary election takes place less than six months before the date on which the ordinary election would otherwise have been held.

29. Subparagraph (12) makes it clear that, once the Scheme has been formally adopted, the Assembly Commission is under a duty to give effect to it.

Section 3 - Short title and commencement

30. This contains the title of the legislation and provides for the legislation to come into force the day after the Bill receives Royal Assent.

COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

31. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o lwybr y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir gweld Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am lwybr y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yma: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation.htm

Cyflwyno'r Bil	30 Ionawr 2012
Cyfnod 1 - Pwyllgor yn ystyried yr egwyddorion cyffredinol	1 a 9 Chwefror 2012 1, 7, 15, 21 a 29 Mawrth 2012 25 Ebrill 2012
Cyfnod 1 - Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr egwyddorion cyffredinol	16 Mai 2012
Cyfnod 2 - Pwyllgor yn ystyried gwelliannau	21 Mehefin 2012
Cyfnod 3 - y Cyfarfod Llawn yn ystyried gwelliannau	3 Hydref 2012
Cyfnod 4 - Pasio'r Bil yn y Cyfarfod Llawn	3 Hydref 2012
Cydsyniad Brenhinol	12 Tachwedd 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

RECORD OF PROCEEDINGS IN THE NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

31. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales' website at: http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation.htm

Bill introduced	30 January 2012
Stage 1 - Committee consideration of general principles	1 & 9 February 20121, 7, 15, 21 & 29 March 201225 April 2012
Stage 1 - Debate in plenary on general principles	16 May 2012
Stage 2 - Committee consideration of amendments	21 June 2012
Stage 3 - Plenary consideration of amendments	3 October 2012
Stage 4 - Passing of the Bill in Plenary	3 October 2012
Royal Assent	12 November 2012

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

Cyhoeddwyd gan TSO (The Stationery Office) ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Teleffôn, Ffacs ac E-bost
TSO, PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion teleffôn/Ymholiadau cyffredinol:
0870 600 5522
Archebwch drwy Linell wybodaeth galwad
isel Parliamentary: 0845 702 3474
Archebion Ffacs: 0870 600 5533
E-bostiwch: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Destun: 0870 240 3701

Siop Senedd y DU
12 Bridge Street, Parliament Square, London SW1A 2JX
Archebion teleffon/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
Ebostiwch: shop@parliament.uk
Y we: http://www.shop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac Asiantwyr Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office) and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
General enquiries: 0870 600 5522
Order through the Parliamentary Hotline Lo-call 0845 7 023474
Fax orders: 0870 600 5533
Email: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0870 240 3701

The Houses of Parliament Shop
12 Bridge Street, Parliament Square
London SW1A 2JX
Telephone orders: 020 7219 3890
General enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: shop@parliament.uk
Internet: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-10-545628-5

9 780105 456285